

ADRODDIAD YSGOL EIFIONYDD MAWRTH 2016



Diwrnod Blasu

Treuliodd criw o Flwyddyn 11 ddiwrnod yng Nghanolfan Glasdir, Llanrwst yn ddiweddar. Trefnwyd y diwrnod gan Brifysgol Caerdydd i godi ymwybyddiaeth am y cyrsiau iechyd maen nhw'n gynnig yno. Bu'n ddiwrnod buddiol dros ben a chafodd y disgyblion gyfle i ddysgu mwy am yrfaedd posib megis nyrso, radiograffi a bod yn fydwraig. Diolch i Mr. Roger Vaughan am drefnu'r daith ac am hebrwng y disgyblion yno.



Rhedeg Trawsgwlad

Llongyfarchiadau mawr i Lleucu Lane ar ei llwyddiant yng nghystadleuaeth rhedeg trawsgwlad Cymru yn ddiweddar. Cynhaliwyd y gystadleuaeth yn Aberhonddu a llwyddodd Lleucu i ddod yn 62 o blith y rhedwyr. Tipyn o gamp o ystyried ei bod yn cystadlu yn erbyn disgyblion o bob cwr o Gymru. Mae'n amlwg fod yr holl ymarfer yn talu ar ei ganfed. Dal ati Lleucu!

Diwrnod di-wisg ysgol

Ar y diwrnod olaf cyn gwyliau Hanner Tymor cafodd y disgyblion gyfle i fynychu'r ysgol yn gwisgo eu dillad eu hunain, yn hytrach na'r wisg ysgol arferol. Braff oedd gweld y disgyblion yn lliwgar ac yn codi arian ar yr un pryd. Casglwyd £310.95 - Da iawn.

Uwch-gymhorthydd newydd

Braff yw croesawu Miss Llio Dudley yn ôl i'r ysgol. Mae Llio yn gyn-ddisgybl ac wedi dechrau ar ei dyletswyddau fel Uwch-gymhorthydd yn yr ysgol ddydd Llun, Mawrth 7fed. Dymuniadau gorau iddi a gobeithio y bydd hi wrth ei bodd yn cael dychwelyd i Ysgol Eifionydd.

Ymweliadau Pontio

Mae Mrs. Lyn Parry Hughes yn parhau i ymweld ag ysgolion cynradd y dalgylch fel rhan o'r cynllun pontio. Ddydd Gwener, Mawrth 4ydd tro Ysgol Borth y Gest oedd hi. Cafodd Cynan, Tomos, Callum, Abbie, Chloe, Connie, Aron, Ellie, Deio, Jack a Chris ymuno â Mrs. Hughes ar yr ymweliad a chyfle i sgwrsio gyda disgyblion Bl.6 am fywyd a gwaith ym Mlwyddyn 7 Ysgol Eifionydd. Heb os bydd hyn o gymorth mawr iddynt fis Medi nesaf.

Gymnasteg

Llongyfarchiadau calonnog i Meredydd Walker, Bl. 11 ar ei llwyddiant mewn cystadleuaethau gymnasteg. Mae Meredydd yn aelod o Glwb Gymnasteg y Moelwyn. I ddechrau, roedd angen cystadlu yng nghystadleuaeth Talaith y Gogledd a daeth Meredydd ac Alanna yn gyntaf yn y gystadleuaeth Gymnasteg Acro ar gyfer parau cymysg. Ymlaen wedyn i gystadlu ym Mhencampwraieth NDP Cymru yng Nghaerdydd ddiwedd Chwefror lle llwyddodd y ddau i ddod yn gyntaf eto. Yn dilyn eu llwyddiant yng Nghaerdydd bydd y ddau yn cystadlu ym Mhencampwraieth NDP Prydain yn Stoke. Pob lwc iddynt.

Cystadleuaeth Presenoldeb

Daeth penllanw yn y gystadleuaeth ar gyfer presenoldeb unigolion fore Mawrth, Mawrth 8fed. Gyda Neuadd yr ysgol dan ei sang ar gyfer gwasanaeth llawn cyhoeddwyd enw'r enillydd. Roedd enwau pob disgybl sydd wedi llwyddo i fynychu'r ysgol a chael canran presenoldeb o dros 98% yn yr het a gyda siawns o ennill i-pad. Yr enillydd llwus oedd Josh Gallimore, Bl.8. Llongyfarchiadau mawr iddo a gobeithio y bydd Josh yn cael oriau o fudd a mwynhad o'i wobr.



Eisteddfod yr Urdd

Ddydd Sadwrn, Mawrth 5ed cynhaliwyd Eisteddfod Sir yr Urdd yn Ysgol Brynrefail, Llanrug. Llongyfarchiadau gwresog i'r canlynol ar eu llwyddiant ac i holl ddisgyblion yr ysgol sydd yn aelodau o Aelwyd Chwilog ac fu'n cystadlu fel aelod o bari neu gôr.

Unawd Cerdd Dant Bl.7-9	Nel Evans	3ydd
Unawd Merched Bl.7-9	Nel Evans	2il
	Erin Jones-Parry	3ydd
Deuawd Bl.7-9	Erin Jones-Parry ac Erin Wyn Williams	2il
	Anest Edwards ac Awen Puw	3ydd
Deuawd Cerdd Dant Bl.9 ac iau	Nel Evans a Lowri Glain (Aelwyd Chwilog)	1af
	Erin Jones-Parry ac Erin Wyn Williams	2il
	Anest Edwards ac Awen Puw	3ydd

Daeth llwyddiant i barti llefaru Bl.7-9 yr ysgol hefyd wrth iddynt gipio'r wobr gyntaf yn y gystadleuaeth honno. Llongyfarchiadau mawr iddyn nhw i gyd a phob dymuniad da wrth iddynt gynrychioli Eryri yn Eisteddfod yr Urdd yn Y Fflint yn ystod gwyliau'r Sulgwyn.